CYFARFOD	**Pwyllgor Safonau**
DYDDIAD	**Mehefin 17 2019**
TEITL	**Adroddiad Pwyllgor Safonau Mewn Bywyd Cyhoeddus**
AWDUR	**Swyddog Monitro**

Cefndir

1. Sefydlwyd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (y Pwyllgor) yn 1994 gan y Prif Weinidog y DU ar y pryd, ac mae'n gyfrifol am hyrwyddo saith egwyddor bywyd cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd, ac arweinyddiaeth – a elwir yn gyffredinol yn egwyddorion Nolan.

2. Fel y gŵyr Aelodau'r Pwyllgor Safonau, mae deg egwyddor mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru sy'n cynnwys egwyddorion Nolan a thair egwyddor ychwanegol sef cydraddoldeb a pharch, stiwardiaeth a dyletswydd i gynnal y gyfraith. Nodir y rhain yng Ngorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001.

3. Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi'r Adroddiad ar ganfyddiadau ei adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer safonau mewn Llywodraeth Leol yn Lloegr. Er bod yr adolygiad yn ymwneud â gweithredu'r gyfundrefn safonau yn Lloegr yn unig, bydd yr Adroddiad a'r argymhellion sydd ynddo o ddiddordeb i Aelodau'r Pwyllgor Safonau. Amgaeir copi o'r Adroddiad yn Atodiad 1.

Adroddiad y Pwyllgor

4. Cylch gorchwyl yr adolygiad oedd:

   • archwilio strwythurau, prosesau ac arferion Llywodraeth Leol yn Lloegr ar gyfer cynnal a gorfodi codau ymddygiad i gynghorwyr lleol,

   • asesu a yw'r strwythurau, y prosesau a'r arferion presennol yn addas ar gyfer safonau ymddygiad uchel mewn Llywodraeth Leol,

   • gwneud unrhyw argymhellion ynglŷn â sut y gellir eu gwella, a,

   • nodi unrhyw dystiolaeth o fygwth cynghorwyr, a gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw fesurau y gellid eu rhoi ar waith i atal a mynd i'r afael â bygythiadau o'r fath

5. Mae'r drefn safonau yn Lloegr yn wahanol iawn i'r gyfundrefn yng Nghymru. Nid oes corff canolog sy'n gyfrifol am oruchwylio safonau yn Lloegr, ond yng Nghymru mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn arfer y swyddogaeth hon.

6. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yn Lloegr gael cod ymddygiad sy'n adlewyrchu egwyddorion Nolan, ond nid oes cod "enghreifftiol" fel yr un sy'n bodoli yng Nghymru. Mae'r broses o nodi a datgan buddiannau yn Lloegr yn wahanol i'r system yng Nghymru ac mae'n fwy amwys, yn enwedig o ran rolau di-dâl mewn cyrff eraill. Hefyd, nid oes prawf gwrthrychol ynglŷn â phryd y mae'n ofynnol i Aelod adael

cyfarfod. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid mabwysiadu'r prawf a ddefnyddir yng Nghymru at y diben hwn.

7. Fel arfer, bydd y Swyddog Monitro, neu ei Ddirprwy, yn ystyried unrhyw honiadau o gamymddwyn yn y lle cyntaf. Os yw'r Swyddog Monitro o'r farn bod angen cynnal ymchwiliad ffurfiol, gall y Swyddog Monitro ei hun wneud hyn, y Dirprwy neu ymchwilydd allanol. I wirio diduedd rwydd y broses o wneud penderfyniadau, rhaid i'r Cyngor geisio ac ystyried barn Person Annibynnol (a benodir gan y Cyngor) cyn i benderfyniad gael ei wneud ar doriad honedig sydd wedi bod yn destun ymchwiliad ffurfiol. Gall y Swyddog Monitro wneud penderfyniad, ond mae llawer o gynghorau yn cynnal Pwyllgor Safonau i wneud penderfyniadau ar gyhuddiadau neu i adolygu penderfyniadau a wnaed gan y Swyddog Monitro.

8. Fodd bynnag mae'r adroddiad yn y 3 Pennod olaf yn symud i faterion fwy cyffredinol ynglŷn a safonau a moeseg. Mae trafodaeth ar ròl Swyddogion , Trefniadau Corfforaethol ac Arweinyddiaeth a Diwylliant.

9. Mae'n amlygu ròl swyddogion ac yn arbennig y Swyddogion Statudol, Prif Weithredwr Swyddog Adran 151 (Cyllid) a Swyddog Monitro yn cynnal y diwylliant safonau. Wrth drafod Trefniadau Corfforaethol amlygir yr heriau newydd sydd yn deillio wrth i drefniadau cyd weithio ac allanoli gael eu datblygu. Gellir ystyried newidiadau yn nhrefniadau Gwynedd megis sefydlu cwmni Byw'n Iach , sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r cyrff rhanbarthol a lleol sydd yn deillio o ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Esiamplau o newidiadau yn llywodraethu Cyngor sydd yn effeithio ar y gyd berthynas rhwng aelodau a'r Cyngor.

10. Yn y Bennod olaf mae trafodaeth ar ròl arweinyddiaeth yn y gyfundrefn. Mae'r canfyddiadau yma yn cadarnhau (os oedd angen) fod safonau uchel o ymddygiad yn deillio o arwain y diwylliant a bod cyfrifoldeb eang am hyn.

11. Mae'r Pwyllgor wedi nodi pymtheg enghraifft o arfer gorau yn ogystal â chwech ar hugain o argymhellion ffurfiol sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad. Mae'n ddogfen sydd yn hefyd yn adlewyrchu ar gynnal safonau ymddygiad o fewn awdurdodau lleol sydd o safbwynt llywodraethu yn seiliedig ar fodel sydd yn debyg iawn i'r hyn a geir yng Nghymru ac wedi ei adeiladau ar yr un Deddfwriaeth ac egwyddorion sylfaenol. Felly, gellir tynnu allan nifer o bwyntiau cyffredinol i'w ystyried ond hefyd enghreifftiau o argymhellion sydd yn gadarnhaol o'r drefn yng Nghymru.

12. Bydd Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cael cyfle yn y cyfarfod i drafod materion a nodir yn yr adroddiad

Argymhelliad

Derbyn yr Adroddiad

Atodiad 1

Adrodddiad - Local Government Ethical Standards, Pwyllgor ar Safonau Mewn Bywyd Cyhoeddus – Ionawr 2019 (gan ei bod wedi ei chyhoeddi yn Lloegr yn unig nid oes fersiwn Gymraeg ar gael)